



Ein cyf - JH-/10461/21

Jack Sargeant
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau

Deisebau@senedd.cymru

16 Medi 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich gohebiaeth ar 2 Medi ar y ddeiseb gan Neil App Jones am sefydlu System Genedlaethol Anrhydeddus o Wobrau.

Hoffwn ddechrau drwy eich llongyfarch ar eich penodiad diweddar yn Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Bwriad system Anrhydeddau'r DU yw cydnabod a dathlu cyflawniad, ymroddiad ac ymrwymiad rhagorol, a'r rhai y mae eu gwaith wedi dod â rhagoriaeth i fywyd Prydain a Chymru.

Fel Gweinyddiaeth Ddatganoledig, ni all Llywodraeth Cymru gynnal ei gwobrau ei hun fel rhan o system Anrhydeddau'r DU ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i sefydlu system Anrhydeddau benodol i Gymru. Byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at system Anrhydeddau'r DU fel ffordd o gydnabod llwyddiannau ac ymroddiad pobl Cymru ac, er nad yw'n rhan o system Anrhydeddau'r DU, sefydlodd Llywodraeth Cymru Wobrau Dewi Sant yn 2014 gydag enwebiadau gan y cyhoedd, sef gwobrau cenedlaethol Cymru.

Rwy'n parhau'n ymrwymedig iawn i groesawu amrywiaeth a gwella cynhwysiant ledled ein cymdeithas, felly fyddwch chi ddim yn synnu o glywed fy mod yn credu y dylid ystyried sut y caiff System Anrhydeddau'r DU ei gwneud yn fwy cynhwysol, nid yn unig o ran ei phrosesau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ond hefyd mewn perthynas â'i chyd-destun diwylliannol hanesyddol. Mae Llywodraeth Cymru yn barod i gyfrannu at unrhyw adolygiad o'r fath.

Mae gennym gyfle i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yng Nghymru. Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi gwneud newidiadau a gynlluniwyd i godi proffil ac ehangu cyrhaeddiad Anrhydeddau. Yn ogystal ag ymestyn ein rhwydweithiau, rydym wedi cynnal cyfres o sesiynau codi ymwybyddiaeth gyda rhanddeiliaid i siarad drwy'r broses Anrhydeddau, ac i roi cymorth a chefnogaeth gyda'r dasg anodd yn aml o baratoi enwebiad. Mae llawer mwy i'w wneud o hyd os ydym am weld ystod mwy amrywiol o Anrhydeddau yn cael eu dyfarnu yng Nghymru.

Rwy'n gobeithio bod fy myfyrdodau a'm crynodeb o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ddefnyddiol i'ch Pwyllgor ac, yn benodol, yn dangos er nad oes gennym gynlluniau ar hyn o bryd i sefydlu system anrhydeddau sy'n benodol i Gymru, mae llawer y gallwn ei wneud o fewn y trefniadau presennol yng Nghymru i sicrhau bod y nifer fawr o unigolion rhagorol yn ein cymdeithas yn cael eu cydnabod am eu llwyddiannau.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jane', with a horizontal line above the first few letters.

Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol